**GRŴP FFRAMWAITH IECHYD A LLES ANIFEILIAID CYMRU**

**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 17 Medi 2014**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Peredur Hughes | Cadeirydd |
| Joanna Price | |
| Huw Davies | |
| Ifan Lloyd | |
| David Davies | |
| Moss Jones | |

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Christianne Glossop | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru (YP yn unig) |
| Arjen Brower | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Chris Hale | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Janet Perry | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |

**<u>Eitem 1 ar yr Agenda – Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniad</u>**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i ail gyfarfod y Grŵp, gan esbonio bod Christianne mewn cyfarfod ym Mae Caerdydd, felly byddai'n ymuno gyda nhw yn y prynhawn.

2. Esboniodd ei fod o'r farn bod lansiad Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru (AHWF Cymru) a gynhaliwyd yn Sioe Frenhinol Cymru (RWS) wedi cael ei groesawu yn fawr, ac roedd yn falch o gael cefnogaeth y Dirprwy Weinidog. Nododd bod fersiwn y Fframwaith i blant wedi cael ei groesawu yn fawr hefyd.

3. Gofynnodd y Cadeirydd am adborth cryno gan yr aelodau am y gwaith a wnaethpwyd mewn perthynas â Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ers y lansiad.

4. Esboniodd Moss ei fod wedi cael ymholiad ynghylch sut y byddai safbwyntiau'r sector dofednod yn cael eu cynrychioli trwy'r Grŵp. Esboniodd Chris, mewn perthynas â'r sector dofednod, bod OCVO yn gyfrifol am y Cynlluniau Rheoli Cenedlaethol ar gyfer Salmonela, yn ogystal â'r polisi ynghylch lles anifeiliaid sy'n cael eu cadw. Nid yw'r polisi ar gyfer marchnata dofednod yn rhywbeth y mae OCVO yn gyfrifol amdano. Bydd Moss yn cyfleu'r wybodaeth hon.

5. Soniodd Jo ei bod wedi cael trafodaethau gyda'i chyswllt ym Mryste ynghylch lles anifeiliaid ac ymarferoldeb cael system sgorio lles. Yn ogystal, soniodd ei bod yn gwneud trefniadau i siarad gyda swyddogion arweiniol Llywodraeth Cymru ynghylch polisi ceffylau cyn unrhyw gyfarfod gyda rhanddeiliaid ceffylau er mwyn ystyried y prosiectau blaenoriaeth y

byddai modd eu datblygu yng Nghymru. Roedd Jo yn pryderu ynghylch profion TB cyn symud ar wartheg o'r tu allan i Gymru hefyd. Esboniodd y Cadeirydd ei fod yn gobeithio cyfarfod gyda Chymdeithas yr Arwerthwyr cyn bo hir, a'i fod yn gweithio ar y mater hwn. Cytunodd y Grŵp bod profion cyn symud ar wartheg sy'n dod i mewn i Gymru yn fater y mae angen rhoi sylw iddo.

6. Roedd y Grŵp yn cytuno y dylai'r Cadeirydd anfon llythyr wrth y Grŵp at y Dirprwy Weinidog, sy'n amlygu eu pryderon ynghylch profion cyn symud ar wartheg sy'n dod o'r tu allan i'r Gymru.

7. Esboniodd Ifan ei fod wedi cynrychioli'r Grŵp Fframwaith yng nghyfarfod Llywodraethu yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol (AHVLA) yn gynnar ym mis Awst. Mae hyn yn ymwneud ag argymhelliad gweithgor Gwyliadwriaeth 2012 y dylid sefydlu rhyw fath o grŵp gwyliadwriaeth annibynnol. Esboniodd mai diben y cyfarfod oedd trafod y ffordd ymlaen, strwythur, swyddogaeth a chyfrifoldebau'r grŵp a'r aelodaeth. Llwyddwyd i sicrhau rhywfaint o gynnydd, ond mae nifer o faterion y mae angen rhoi sylw iddynt o hyd. Roedd wedi cyfnewid llythyrau gyda Chymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA) hefyd ynghylch Ymwrthedd i Gyffuriau, mater a godwyd yn ystod Seminar y Grŵp yn Sioe Frenhinol Cymru. Esboniodd y byddai'n cynrychioli'r Grŵp yn y Seminar ar gyfer y DU gyfan ynghylch Ymwrthedd i Gyffuriau, a gynhelir ar 18 Tachwedd.

***8.*** Esboniodd Ifan ei fod wedi cael trafodaeth gyda BVA hefyd ynghylch blaenoriaethau i anifeiliaid bach a'r posibilrwydd o sefydlu is-grŵp. Esboniodd bod BVA a BSAVA (Cymdeithas Milfeddygon Anifeiliaid Bach Prydain) wedi cyfnewid safbwyntiau ynghylch hyn a blaenoriaeth AHWF Cymru bod "Anifeiliaid yng Nghymru yn cael bywyd o ansawdd da".

***Pwynt Gweithredu 1 – Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon neges e-bost i'r Grŵp Fframwaith er mwyn ceisio eu safbwyntiau ynghylch yr hyn yr hoffent ei gynnwys yn eu llythyr at y Dirprwy Weinidog ynghylch profion TB cyn symud ar wartheg o'r tu allan i'r Gymru.***

***Pwynt Gweithredu 2 – Y Cadeirydd i ddrafftio ac i anfon llythyr i'r Dirprwy Weinidog ar ôl cael sylwadau'r Grŵp (fel y gofynnwyd uchod).***

**Eitem 2 ar yr Agenda – Cofnodion A Phwyntiau Gweithredu O Gyfarfod 11 Mehefin**

**9.** Esboniodd y Cadeirydd bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi anfon cofnodion a phwyntiau gweithredu y cyfarfod diwethaf mewn neges e-bost at Aelodau'r Grŵp. Ni godwyd unrhyw faterion.

**Eitem 3 ar yr Agenda – Diweddariad gan yr Ysgrifenyddiaeth**

**10.** Rhoddodd Janet ddiweddariad gan yr Ysgrifenyddiaeth.

- **Cyfathrebu –** Bydd erthygl yn ymddangos yn rhifyn Medi/Hydref Gwlad ynghylch lansiad y Fframwaith yn RWS a phenodiad y Grŵp. Ystyrir erthyglau ar gyfer y dyfodol. Gofynnodd Janet i'r Grŵp anfon ymlaen unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol i'r Ysgrifenyddiaeth.

- **Rhwydweithiau Partneriaeth** – Mae'r dudalen ar y we sy'n nodi sut y mae modd i bobl gofrestru eu diddordeb mewn ymwneud â'r Fframwaith bellach yn fyw. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cadw cronfa ddata o'r rhanddeiliaid cofrestredig. Bydd y gwaith yn parhau i annog pobl i gofrestru.

- Nododd y Grŵp eu bod o'r farn bod Brîff y Newyddion Diweddaraf yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr, gan ddiolch i'r Ysgrifenyddiaeth am ei baratoi.

- **Grŵp Iechyd a Lles Gwartheg (CHAWG) a Grŵp Iechyd a Lles Defaid (SHAWG)** – esboniodd Janet bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi bod yn ystyried sut y mae modd i'r Grŵp gael cyswllt gyda grwpiau allweddol eraill, gan gynnwys CHAWG a SHAWG. Cytunwyd gyda CHAWG a SHAWG bod modd i'r Grŵp gael sedd yn y ddau grŵp hwn. Bydd Huw yn cynrychioli'r Grŵp yn SHAWG a bydd Dai yn mynychu cyfarfod nesaf CHAWG. Cadarnhaodd Huw hefyd y bydd yn mynychu'r Gynhadledd Iechyd a Lles Defaid a gynhelir ar 26 Tachwedd 2014.

- **Cyfarfodydd y Cadeirydd**

    - Cyfarfu'r Cadeirydd gyda'r Dirprwy Gyfarwyddwr dros Faterion Gwledig i drafod gwaith y Grŵp.

    - Bydd y Cadeirydd yn cael ei gyfarfod chwemisol gyda'r Dirprwy Weinidog ar 7 Hydref. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar gyfer y 4 Cadeirydd yng Ngogledd Iwerddon ym mis Hydref/Tachwedd. Nid yw'r trefniadau terfynol wedi cael eu cadarnhau eto.

    - Ymgysylltu yn y dyfodol – Cytunodd y Grŵp y byddent yn dymuno ystyried y posibilrwydd o gynnal sesiwn Holi ac Ateb gyda rhanddeiliaid yn ystod y Ffair Wanwyn

    - Cynhelir Cynhadledd AHVLA ym mis Tachwedd hefyd, a bydd cyfle i gyflwyno a thrafod AHWF Cymru. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cysylltu pan fydd ganddynt fanylion pellach

***Pwynt Gweithredu 3 – Yr Aelodau i anfon awgrymiadau ar gyfer rhifynnau o GWLAD yn y dyfodol ymlaen at yr Ysgrifenyddiaeth***

***Pwynt Gweithredu 4 – Dai Davies a Huw Davies i fynychu CHAWG a SHAWG a rhoi adborth i'r Grŵp.***

***Pwynt Gweithredu 5 – Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu gyda Swyddog Cyfathrebu OCVO ynghylch y posibilrwydd o gynnal sesiwn Holi ac Ateb***

***yn y Ffair Wanwyn.***

**<u>Eitem 4 ar yr Agenda – Cyflwyniad am Gyllidebau</u>**

11. Yn dilyn ad-drefniant Gweinidogol, esboniodd Chris mai Carl Sargeant yw'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol nawr, ac mai Rebecca Evans yw'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd.

**12.** Yna, rhoddodd drosolwg byr o'r cyllidebau sy'n cael eu dal gan OCVO, gan esbonio sut y rhennir y cyllidebau yn unol â'r meysydd polisi.

**<u>Eitem 5 ar yr Agenda – Y Cyswllt Gyda Pholisi Bwyd</u>**

13. Yn flaenorol, roedd y Grŵp wedi cytuno ar bwysigrwydd meithrin cysylltiadau ar draws meysydd polisi, yn enwedig gyda pholisi bwyd. Bu'r Grŵp yn ystyried y papur sefyllfa ynghylch y cyswllt gyda bwyd. Roedd y Grŵp yn croesawu'r papur, gan gytuno y byddent yn dymuno cael cyflwyniad byr am y Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod yn ystod y cyfarfod nesaf er mwyn llunio a chytuno yn well ar eu dewisiadau ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol.

***Pwynt Gweithredu 6 – Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu gyda Pholisi Bwyd er mwyn trefnu cyflwyniad am y Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod yn ystod y cyfarfod nesaf***

**<u>Eitem 6 ar yr Agenda – Datblygu Tystiolaeth.</u>**

14. Esboniodd y Cadeirydd mai un o'r camau gweithredu o'u cyfarfod cyntaf oedd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn comisiynu gwaith er mwyn ystyried tystiolaeth sylfaenol am flaenoriaethau ynghylch clefydau. Estynnodd groeso i Gavin Watkins i'r cyfarfod, a gomisiynwyd i ddatblygu'r gwaith hwn, a diolchwyd iddo am y papur a baratowyd. Esboniodd y Cadeirydd bod y gwaith hwn yn parhau a'i fod yn flaenoriaeth allweddol.

15. Aeth Gavin trwy'r gwaith a gyflawnwyd ganddo, gan nodi ei fod wedi rhoi sylw iddo mewn dwy ran, yn gyntaf, edrych ar hen flaenoriaethau cyn Grŵp Llywio y Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid ac yn ail, edrych ar ganlyniadau iechyd a lles anifeiliaid generig. Esboniodd bod system flaenoriaethu eisoes mewn grym ac a ddefnyddir gan y sector cyhoeddus ar hyn o bryd, o'r enw D2R2. Esboniodd mai offeryn yw hwn a ddefnyddir er mwyn helpu'r llywodraeth i flaenoriaethu ymyriadau penodol mewn perthynas â chlefydau anifeiliaid, ar sail gwaith dadansoddi systemig a gwrthrychol. Nododd y gallai'r Grŵp ddefnyddio'r broses hon fel ffordd o flaenoriaethu wrth geisio cytuno ar flaenoriaethau.

16. Cytunodd y Grŵp bod y cyflwyniad wedi bod o gymorth, ond roedd yn gwerthfawrogi'r angen i gael trafodaethau pellach ynghylch yr agwedd hon a sut y mae modd iddynt wneud y defnydd gorau o'r offerynnau sydd

ar gael iddynt wrth ystyried canlyniadau ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy.

***17.*** Dywedodd Jo y bydd yn anfon ymlaen y wybodaeth ynghylch "Pathways to Impact", sef pecyn cymorth y byddai modd ei ddefnyddio gyda'r dull gweithredu ar sail canlyniadau.

***Pwynt Gweithredu 7 – Bydd Jo yn anfon gwybodaeth ynghylch "Pathways to Impact" i'r Ysgrifenyddiaeth, er mwyn iddi eu dosbarthu i'r Grŵp***

***Pwynt Gweithredu 8 – Bydd y Grŵp yn ystyried sut y mae modd iddynt ddefnyddio'r offerynnau sydd ar gael iddynt er mwyn cytuno ar eu materion a'u hamcanion ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.***

**<u>Eitem 7 ar yr Agenda – Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm (FAWC) – Adolygiad o Oblygiadau Lladd Anifeiliaid ar y Fferm ar Les Anifeiliaid</u>**

18. Esboniodd y Cadeirydd bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi dosbarthu llythyr yn galw am wybodaeth gan y Cyngor Lles Anifeiliaid (FAWC), y maent wedi cychwyn ar adolygiad o oblygiadau lladd anifeiliaid ar y fferm ar les anifeiliaid. Yn ogystal, soniodd y Cadeirydd bod y gwaith o ystyried y cais hwn yn cynnwys lleddfu poen a defnyddio ewthanasia ar gyfer anifeiliaid afiach / sydd wedi cael eu hanafu, sef mater a godwyd yn ystod seminar y Grŵp a gynhaliwyd yn Sioe Frenhinol Cymru.

19. Cafodd y Grŵp drafodaeth gyffredinol ynghylch ewthanasia, a gwnaethpwyd sylwadau ynghylch a yw ffermwyr yn wybodus am yr adeg pan ddylent ymyrryd pan fydd anifail mewn poen, ar ba gam y dylent gysylltu â'u milfeddyg, a ddylid cael system sgorio y byddai modd i ffermwyr ei defnyddio er mwyn pennu ar ba adeg y defnyddir ewthanasia, a ddylai addysg/hyfforddiant gwell fod ar gael i ffermwyr ifanc?

***20.*** Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am sylwadau a wnaethpwyd eisoes, a gofynnodd iddynt anfon unrhyw sylwadau terfynol i'r Ysgrifenyddiaeth erbyn 19 Medi. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn dosbarthu ymateb drafft i'w gytuno cyn ei anfon at FAWC.

***Pwynt Gweithredu 9 – Bydd y Grŵp yn anfon sylwadau i'r Ysgrifenyddiaeth erbyn 19 Medi. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn paratoi ac yn dosbarthu ymateb terfynol i'w gytuno, er mwyn ei anfon i FAWC***

**<u>Eitem 8 ar yr Agenda – Rheoli Systiau Llyngyr Rhuban Cŵn Ymhlith Defaid</u>**

21. Esboniodd y Cadeirydd bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi dosbarthu Papur Sefyllfa ynghylch Rheoli Systiau Llyngyr Rhuban Cŵn ymhlith Defaid.

Codwyd y mater hwn gan Christianne oherwydd yr amcangyfrifir bod y mater hwn yn costio £5 miliwn i'r diwydiant bob blwyddyn. Roedd y papur yn cynnig trosolwg byr o'r sefyllfa, gan ofyn i'r Grŵp ystyried a yw hwn yn faes y byddent yn dymuno ei ystyried yn eu cynllun gwaith.

22. Cafwyd trosolwg gan Huw o Brosiect Technoleg, Amaethyddiaeth a Mwy o Arbedion Effeithlonrwydd (TAG) gan mai un o'r ffrydiau gwaith yn y prosiect hwn yw ystyried rheolaeth larfâu llyngyr rhuban cŵn cysticercus tenuicollis a cysticercus ovis ymhlith defaid. Esboniodd bod y prosiect wedi sicrhau cyllid ychwanegol gan Gynllun Effeithlonrwydd yn y Gadwyn Gyflenwi i sicrhau cyflawniad mewn perthynas â 4 ffrwd gwaith tan fis Mehefin 2015. Mae'r ffrydiau gwaith yn gysylltiedig mewn ffordd uniongyrchol â chydnerthedd y diwydiant defaid yng Nghymru. Esboniodd y bydd y gwaith a ddatblygir dan y prosiect yn cynnwys:

- adolygiad o'r lenyddiaeth er mwyn deall yn well sut y mae paraseitiaid yn trosglwyddo o gŵn ac anifeiliaid o deulu'r ci/bywyd gwyllt i ddefaid
- cynllunio holiadur am reolaeth cŵn a defaid a dosbarthu hyd at 1000 o holiaduron i ffermwyr defaid yng Nghymru
- cyfweliadau manwl gyda nifer o gynhyrchwyr er mwyn deall sut y mae mesurau rheoli, systemau ffermio a ffynonellau haint anamaethyddol eraill yn rhyngweithio.
- Ymweliadau i 15 o ffermydd TAG dethol (cyflenwyr Dunbia) er mwyn trafod rheolaeth cŵn a defaid
- casglu a dadansoddi samplau o garthion cŵn o'r holl gŵn ar y fferm
- ystyried sut y gallai paraseitiau fod yn effeithio ar berfformiad ŵyn trwy archwilio adborth gan ladd-dai a chyfraddau tyfiant ŵyn
- adolygiad o effeithiau llyngyr rhuban cŵn yn y gadwyn gyflenwi cig defaid a chreu taflen ffeithiau ynghylch arferion rheolaeth gorau ar y fferm, y mae modd eu mabwysiadu er mwyn lleihau haint
- adroddiad interim am ffermydd astudiaeth achos penodol ac adroddiadau gweithgarwch ac adroddiadau ynghylch canfyddiadau'r prosiect

23. Esboniodd Arjen mai un dewis i'r Grŵp ei ystyried yw holi lladd-dai i nodi clefyd mewn afu er mwyn pennu tystiolaeth fwy cadarn.

24. Cytunodd y Grŵp ar hyn fel ffordd ymlaen, gan ofyn i Arjen ddrafftio manyleb ar gyfer y prosiect hwn.

***Pwynt Gweithredu 10 – Arjen i ysgrifennu manyleb er mwyn i'r Grŵp ei hystyried, gwneud sylwadau amdani a chytuno arni.***

***Pwynt Gweithredu 11 – Ar ôl cael y fanyleb, cytuno ar a chyflwyno cynnig er mwyn cael cymorth ariannol.***

**Eitem 9 ar yr Agenda – Dolur Rhydd Feirysol y Gwartheg (BVD)**

25. Esboniodd y Cadeirydd bod y Grŵp wedi cytuno yn flaenorol bod BVD yn flaenoriaeth allweddol a bod llawer o waith eisoes wedi cael ei wneud yng Nghymru er mwyn ystyried y potensial o ddileu BVD yng Nghymru. Nodwyd y sefyllfa bresennol gan y Grŵp, fel y nodwyd yn y Papur Sefyllfa ynghylch BVD a gyflwynwyd ar gyfer y cyfarfod hwn.

26. Esboniodd y Cadeirydd mai un o'r elfennau sy'n cael eu datblygu yw gwaith yr Is-grŵp BVD. Estynnodd y Cadeirydd groeso i John Griffiths a Neil Paton i'r cyfarfod er mwyn cyflwyno cynigion yr Is-grŵp ynghylch dileu BVD yng Nghymru. Aeth John a Neil trwy'r pwyntiau allweddol ynghylch datblygiad eu hadroddiad a'r argymhellion a gyflwynir i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi eu hystyried. Yn ogystal, gwnaethant ofyn i'r Grŵp ystyried yr adroddiad a'r argymhellion. Diolchodd y Cadeirydd i John a Neil am roi cyflwyniad diddorol iawn a dywedodd y bydd y Grŵp yn ystyried yr adroddiad, gan roi eu sylwadau iddynt yn fuan.

27. Bu'r Grŵp yn trafod y materion a nodwyd yn ystod y cyflwyniad a'r dewisiadau ynghylch symud y gwaith yn ei flaen.

28. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at John a Neil er mwyn cymeradwyo'r dull gweithredu a gynigir. Yn ogystal, dylent sicrhau eu cytundeb i symud ymlaen i'r cam nesaf. Dylai'r llythyr gynnig cyngor ynghylch y materion y mae angen rhoi sylw iddynt o hyd a rhyw fath o amserlen ddangosol ynghylch gweithredu.

***29.*** Awgrymodd y Cadeirydd y dylid ychwanegu BVD i'r agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr, er mwyn cynnal trosolwg o'r cynnydd a hefyd, er mwyn pennu a oes angen unrhyw gymorth neu ymyrraeth. Yn ogystal, byddai'n rhoi cyfle i sicrhau bod y ffrydiau gwaith paralel megis dadansoddi'r gost a'r budd yn cael eu dwyn ynghyd fel un cynnig aliniedig. Dywedodd y Cadeirydd y bydd yn rhoi diweddariad i'r Dirprwy Weinidog pan fydd yn ei chyfarfod ar 7 Hydref.

***Pwynt Gweithredu 11 – Y Cadeirydd i anfon llythyr at Is-grŵp BVD er mwyn ymateb i'w hadroddiad***

***Pwynt Gweithredu 12 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu BVD fel eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf***

**Eitem 10 ar yr Agenda – Blaenoriaethau Gwaith ar gyfer y Dyfodol**

30. Yn ogystal â'r materion a godwyd yn ystod y cyfarfod, esboniodd y Cadeirydd y dylai'r Grŵp fod yn ystyried eu blaenoriaethau gwaith dros y misoedd nesaf nawr.

31. Cytunwyd y bydd BVD yn flaenoriaeth fawr i'r Grŵp Fframwaith. Dylai'r blaenoriaethau eraill ar gyfer y dyfodol gynnwys;

- anifeiliaid nad ydynt yn cael eu ffermio
- ceffylau (cyfarfod mis Rhagfyr)
- Anifeiliaid bach a gedwir (cyfarfod mis Mawrth)

32. Yn ogystal, cytunwyd y dylai bioddiogelwch fod yn flaenoriaeth drawsbynciol. Bydd y materion hyn yn cael eu cynnwys fel rhan o gynllun i'r Grŵp ar gyfer y dyfodol.

33. Cytunodd Christianne y byddai tîm milfeddygol OVCO yn adolygu eu papur ynghylch bioddiogelwch, i'w ddosbarthu i'r Grŵp.

***Pwynt Gweithredu 13 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu ceffylau i agenda'r cyfarfod nesaf ac anifeiliaid bach i agenda cyfarfod mis Mawrth***

***Pwynt Gweithredu 14 – Milfeddygon OCVO i ailystyried y papur ynghylch bioddiogelwch, a ddosbarthir i'r Grŵp***

**Eitem 11 ar yr Agenda – Unrhyw Fater Arall**

34. Esboniodd y Cadeirydd y byddai'n mynychu gweithdy cyfnod dylunio gweithredol Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru ar 1 Hydref. Cytunwyd y byddai diweddariad am ddatblygiad yr RDP yn cael ei ddosbarthu cyn y cyfarfod nesaf. Yn gysylltiedig gyda'r gwaith hwn, esboniodd y Cadeirydd ei fod ef a Chris Hale wedi cyfarfod gyda Lantra i drafod offeryn asesu a dysgu ar-lein Lantra ar gyfer y sector bwyd a diod. Esboniodd Chris bod y drafodaeth wedi canolbwyntio ar y ffordd y byddai modd integreiddio iechyd a lles anifeiliaid yn y system, gyda'r potensial iddi gael ei defnyddio fel offeryn er mwyn cyfleu negeseuon megis bioddiogelwch a darparu dysgu ar-lein. Cytunwyd y byddai'r cynnig amlinellol yn cael ei ddosbarthu i'r Grŵp.

35. Dywedodd Christianne y byddai modd i bapur ynghylch darpariaeth filfeddygol, a allai gynnwys gwyliadwriaeth, tendro am wasanaethau milfeddyg a phrofion TB a'r broses ar gyfer datblygu polisïau trwy AHVLA, gael ei ddarparu i'r Grŵp er gwybodaeth.

36. Soniodd Ifan ei fod wedi cael gohebiaeth gan BVA ynghylch Ymwrthedd i Gyffuriau gan eu bod wedi cyhoeddi llenyddiaeth i ffermwyr. Cytunwyd y byddai'n rhoi diweddariad yn ystod y cyfarfod nesaf.

37. Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp ar 3 Rhagfyr.

***Pwynt Gweithredu 15 – Yr Ysgrifenyddiaeth i gomisiynu diweddariad ysgrifenedig ynghylch y Cynllun Datblygu Gwledig gan arweinwyr polisi***

***Pwynt Gweithredu 16 – Yr Ysgrifenyddiaeth i gomisiynu diweddariad ysgrifenedig ynghylch y ddarpariaeth filfeddygol.***

***Pwynt Gweithredu 17 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu sleidiau Lantra i'r Grŵp***

***Pwynt Gweithredu 18 – Ifan i roi diweddariad byr am Ymwrthedd i Gyffuriau yn ystod y cyfarfod nesaf***

**GORFFEN**